Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Cei Newydd

**Maes Yr Ysgol**
**Cei Newydd**
**Ceredigion**
**SA45 9TE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Gymunedol Cei Newydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Cei Newydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 90 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 77 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 17.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 17/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymunedol Cei Newydd yn darparu awyrgylch hapus a chroesawgar ble mae lles a hawliau'r disgyblion yn cael eu blaenoriaethu'n llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd a gwaith yr ysgol ac mae eu llais a'u barn yn bwysig iawn i'r staff. Mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda ac maent yn barchus a chwrtais at eraill, gan gynnwys ymwelwyr i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel a bodlon wrth eu gwaith a'u chwarae ac yn dangos balchder cynhenid at eu hysgol a'u cymuned.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Ar y cyfan, maent yn gwneud cynnydd cadarn priodol wrth ddatblygu eu medrau llafar a llythrennedd, ac yn eu cymhwyso'n hyderus ar draws ystod eang o gyd-destunau. Mae medrau rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r ardal leol a'r cyd-destun unigryw i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnig ystod o weithgareddau diddorol er mwyn ysgogi ac ennyn diddordeb y disgyblion.

Trwy holi treiddgar, mae athrawon a chynorthwywyr yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gwblhau eu tasgau. Mae staff yn cynnig adborth priodol i ddisgyblion ond nid ydynt yn darparu cyfleoedd digon cyson iddynt ymateb i'r adborth a gwella eu gwaith.

Er ei bod yn newydd i'w swydd, mae'r pennaeth eisoes wedi llwyddo i rannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda rhieni, disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Caiff ei chefnogi'n gadarn gan staff gweithgar ac ymroddgar sy'n rhannu ei dyheadau ar gyfer mynnu'r safonau gorau posibl ar gyfer lles a dysgu pob disgybl. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol at lwyddiant yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

A2 Ehangu cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn eu hamser yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu sy'n is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu cam datblygiad. Dros eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau siarad trwy ailadrodd geirfa a phatrymau brawddeg yn effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa fwy ymestynnol, er enghraifft wrth gyflwyno chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae lleiafrif y disgyblion hynaf yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Maent yn dangos dealltwriaeth briodol o iaith aml-ddefnydd ac yn defnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg yn gyson wrth iddynt fagu hyder a dwysáu eu dealltwriaeth am y defnydd cywir o'r iaith.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llafar yn Saesneg. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn siarad yn bwrpasol wrth ddisgrifio sut mae llygredd yn gallu niweidio creaduriaid y môr. Mae'r disgyblion hynaf yn trin a thrafod ystod eang o bynciau yn hyderus gan ddefnyddio geirfa estynedig a hynod aeddfed. Maent yn gwrando'n astud ar gyfraniadau oedolion a disgyblion eraill ac yn ymateb yn barchus a chwrtais gan ddefnyddio iaith a thôn llais briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn hyderus wrth ddarllen ystod dda o lyfrau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnwys gwahanol destunau. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn trafod eu hoff awduron a genres yn aeddfed gan gynnig rhesymau dilys dros eu dewisiadau. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio atalnodi yn llwyddiannus i gyfleu ystyr a chreu effaith wrth ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medru ysgrifennu. Maent yn cymhwyso eu medrau ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm yn fedrus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dewis ac ysgrifennu geiriau perthnasol wrth iddynt labelu lluniau o fwydydd masnach deg, er enghraifft. Ym Mlwyddyn 3, maent yn ysgrifennu cerddi diddorol am lan y môr gan ychwanegu cwpledi sy'n odli. Erbyn Blwyddyn 5, mae'r disgyblion yn ysgrifennu ar draws ystod fwy eang o ffurfiau, er enghraifft wrth gyfansoddi limrigau doniol am gymeriadau a chreaduriaid y cefnforoedd, gan dalu sylw pwrpasol i batrymau sillafau.

Mae medrau mathemategol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn adeiladu'n gyson ar ddysgu blaenorol ac yn meithrin arferion cadarn wrth ddatrys problemau a chyfrifo â rhifau ymestynnol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn adio rhifau un digid yn bwrpasol wrth iddynt ganfod sawl ŵy sydd mewn gwahanol nythod. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn dehongli amserlenni bws yn fedrus ac yn cyfrifo faint o amser y bydd siwrneiau gwahanol yn ei gymryd. Mae'r disgyblion hynaf yn adnabod a ffurfio rhifau tu hwnt i filiwn yn hyderus ac yn

defnyddio dull priodol i ddarganfod arwynebedd siapiau cyfansawdd. Pan gânt gyfleoedd, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn manteisio ar gyfleoedd diddorol i ddatblygu a chymhwyso eu medrau'n fwriadus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pecyn pwrpasol i lunio poster sy'n hybu ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, maent yn defnyddio fformiwlâu yn fedrus mewn taenlen er mwyn hwyluso eu gwaith ar gyfrifo faint o blastig sy'n llygru'r môr.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarn at ddatblygu eu medrau corfforol. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu cryfder a'u gallu i gydbwyso'n effeithiol wrth fynd ar feics yn yr ardal tu allan. Mae'r disgyblion hynaf yn mwynhau cystadlu mewn cystadleuaeth chwaraeon a datblygu medrau defnyddiol wrth gaiacio, hwylfyrddio a phadlfyrddio yn ystod eu sesiynau wythnosol ar y dŵr.

Mae medrau creadigol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn efelychu dull artist a darlunydd lleol trwy greu dyluniadau diddorol wrth ddefnyddio broc môr.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn uniaethu'n dda â'I gilydd. Maent yn ystyrlon o eraill, fel sy'n cael ei gydnabod yn arwyddair yr ysgol, 'Er ein bod yn wahanol, ni'n nofio gyda'n gilydd'. Mae bron bob disgybl yn siarad yn hyderus gydag oedolion ac maent yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr. Mae awyrgylch gartrefol yn treiddio trwy holl agweddau bywyd yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymddiried yn yr athrawon a chynorthwywyr ac maent yn ymwybodol at bwy i droi os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn gallu gwneud hyn yn gyson, er enghraifft trwy adael negeseuon yn y 'bocs becso' i gyfleu eu teimladau. Yn sgil hyn, mae staff yn ymateb yn briodol i'r materion a godir gan ddisgyblion.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am sut i fod yn ddiogel ar-lein; er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i lunio cyfrinair cudd. Maent yn deall disgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad a lles gan gyfeirio at y '5 pwysig', sef bod yn barod i ddysgu, cyfeillion caredig, gwrando'n astud, dangos parch a gwneud eu gorau glas, yn gyson.

Mae dealltwriaeth disgyblion o hawliau plant yn gryfder ac maent yn parchu hawliau pobl eraill yn dda . Mae'r llysgennad hawliau plant yn hynod weithredol wrth hybu hyn ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut maent yn cael eu heffeithio. Mae disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd cyson i fynegi barn ac i ddylanwadu ar waith yr ysgol; er enghraifft, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn trefnu gweithgareddau buddiol amser cinio. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgwyddo rôl arweiniol trwy gynnal clybiau amser cinio, fel y clybiau crosio, gwyddbwyll a chrefftau. Mae aelodau cyngor 'Cewri Cei' yn hybu'r Gymraeg yn briodol trwy ddarparu gemau iaith i'r disgyblion ieuengaf a gwobrwyo disgyblion am siarad Cymraeg ar y buarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am yr ysgol a'r cyfleoedd maent yn eu cael fel rhan o'u dysgu. Mae llawer yn elwa o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel chwaraeon dŵr, criced a sesiynau gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffitrwydd a byw'n iach. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r angen i wneud dewisiadau iach yn yr ysgol fel bwyta ffrwythau ac yfed dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r ffordd mae disgyblion yn trafod gydag eraill a rhannu eu barn. Maent yn dangos parodrwydd i gyfrannu at drafodaeth dosbarth yn aeddfed gan gynnig sylwadau synhwyrol, er enghraifft wrth drafod effeithiau niweidiol y gall sbwriel eu cael ar fywyd yn y môr. Mae llawer yn gweithio'n bwrpasol mewn parau ac yn cydweithio'n dda mewn grwpiau gan gefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol.

Mae bron bob disgybl yn cyd-chwarae'n hapus a bodlon ac maent yn garedig a chyfeillgar â'i gilydd. Yn gyffredinol, maent yn canolbwyntio ar eu tasgau yn bwrpasol am gyfnodau mwy estynedig. Er hynny, ar brydiau, mae ychydig o ddisgyblion yn tueddu i fod yn oddefol ac yn colli diddordeb yn eu gwaith. Yn aml, mae hyn oherwydd natur y tasgau a diffyg cyflymder yn yr addysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau'r athrawon ac yn gwrando'n weithredol ar gyfarwyddiadau. Pan gânt y cyfle, maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan athrawon ac yn gwella eu gwaith yn briodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig amrywiaeth symbylus o brofiadau ac yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth yr ysgol yn ymgorffori egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn bwrpasol. Mae athrawon yn ymgysylltu â disgyblion a'r rhieni yn fwriadus wrth gynllunio profiadau dysgu.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o chwedlau a hanes lleol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar y disgyblion. Maent yn cefnogi hyn trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer geirfa a phatrymau brawddeg cyfarwydd. Mae'r disgyblion hynaf yn mynd ati i ddefnyddio ystumiau a mynegiant effeithiol wrth adrodd chwedlau lleol a'u cyflwyno ar ffurf fideo, er enghraifft. Darperir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn y ddwy iaith. Caiff hyn ei gynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant yn natblygiad darllen y disgyblion ar draws yr ystod oed. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu'n ofalus ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion. Mae athrawon a'r cynorthwywyr yn llwyddo i ddarparu fframweithiau pwrpasol er mwyn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu Cymraeg. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu ar draws ystod eang o ffurfiau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu posteri i hybu cynaliadwyedd tra bod y rhai hynaf yn ysgrifennu bywgraffiadau manwl am eu harwyr personol.

Mae'r athrawon yn datblygu medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ystod oedran. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i gymhwyso medrau rhifedd mewn cyd-destun byd go iawn yn brin. Darperir cyfleoedd perthnasol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau digidol a'u cymhwyso'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio rhaglen bwrpasol er mwyn creu amserlen gronolegol yn eu gwaith hanes. Mae staff yn gosod pwyslais priodol ar

gyflwyno darpariaeth effeithiol i gadw disgyblion yn ddiogel ar y we, er enghraifft trwy drafod digwyddiadau penodol mewn gwasanaeth ysgol gyfan.

Ble mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau agored pwrpasol er mwyn ymestyn a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol yn effeithiol, ac yn eu cefnogi'n bwrpasol wrth ddarparu gweithgareddau sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda gan wneud defnydd cyson o'r ardal leol er mwyn gosod cyd-destun perthnasol i'r profiadau dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn didoli sbwriel a gasglwyd ar lan y môr yng Nghei Newydd.

Yn yr arferion addysgu llai effeithiol, mae cyflymder cyflwyniadau a gweithgareddau yn rhy araf ac mae athrawon yn dueddol o or-gyfarwyddo'r dysgu. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu a'r modd maent am gwblhau tasgau penodol a chyflwyno eu gwaith. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu ar brydiau, sydd yn ei dro yn llesteirio cynnydd yn eu dysgu.

Er yn gyfyng, mae'r ardal ddysgu allanol yn atyniadol ac mae athrawon a'r cynorthwywyr yn ei defnyddio'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu amrywiol a gwerthfawr i ddisgyblion. Mae staff yn manteisio'n dda ar gyfleusterau ac adnoddau'r gymuned er mwyn darparu profiadau dysgu buddiol. Er enghraifft, mae darpariaeth gweithgareddau dŵr ar gael i ddisgyblion hynaf yr ysgol yn ystod tymor yr haf.

Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i fynd ati i ddarparu'n bwrpasol ar gyfer anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth, er enghraifft cyrhaeddiad disgyblion yn erbyn llinyn mesur Cwricwlwm i Gymru, yn llwyddiannus wrth ymateb i anghenion penodol disgyblion.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynnig adborth addas i ddisgyblion. Maent yn defnyddio cod marcio cytunedig ac yn cynnig sylwadau adeiladol i'r disgyblion ynghylch beth maent wedi ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Nid yw'r athrawon bob amser yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn ac i wneud addasiadau buddiol i'w gwaith. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion yn ogystal â'r meysydd sydd angen iddynt eu datblygu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cyfle cyfartal ac hawliau'r disgyblion. Mae perthynas weithio gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn seiliedig ar barch a chwrteisi. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at holl agweddau bywyd ysgol.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi sefydlu system ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da sy'n cael dylanwad da ar ymddygiad ac ymroddiad y

disgyblion i'w dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn cymryd y cyfrifoldebau o ddifrif ac yn datblygu medrau gwerthfawr a fydd o gymorth iddynt yn eu bywyd ysgol a thu hwnt.

Trwy ystod eang o gyfleoedd pwrpasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn trafod gwerthoedd pwysig yn ystod y gwasanaeth ysgol, er enghraifft yr angen i drin pawb â pharch. Mae'r 'Llysgennad Hawliau Plant' yn weithgar wrth godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hawliau trwy ymgyrchoedd fel hawl yr wythnos. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu hawliau a phwysigrwydd amddiffyn eu hunain. Er enghraifft, maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r angen i fyw mewn cartrefi clyd a diogel, ac yn dangos empathi tuag at eraill ble nad yw hyn yn bosibl.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau yn lleol. Er enghraifft, maent yn cael profiadau cyfoethog wrth gystadlu yn eisteddfod yr ysgol a chystadlaethau chwaraeon amrywiol. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth ddatblygu hunanhyder llawer o'r disgyblion yn ogystal â'u gallu i gydweithio'n  gynhyrchiol fel aelod o dîm. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol cenedlaethol.

Darperir cefnogaeth dda ar gyfer meithrin a datblygu lles emosiynol y disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwisgo bandiau garddwrn sydd â lliwiau gwahanol yn cyfateb i'w teimladau wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore. Mae hyn yn galluogi staff i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth trwy raglenni penodol er mwyn eu helpu i ymdopi â'u teimladau ac emosiynau, yn ôl yr angen.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar er mwyn darparu cefnogaeth iddynt. Gwneir defnydd effeithiol o wahanol raglenni cefnogi, er enghraifft wrth gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chynorthwywyr i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod yn briodol. Maent yn sicrhau bod gan bob disgybl dargedau penodol sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n gyson. Mae staff yn cynnwys y rhieni'n bwrpasol wrth drafod cynnydd eu plant a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Trwy gydweithio cydlynus, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol â'u dysgu yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn.

Mae ymweliadau defnyddiol gan unigolion, er enghraifft yr heddwas, yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion yn dda o beryglon sydd o'u cwmpas, er enghraifft camddefnyddio sylweddau. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ran diogelu ac mae'r holl staff yn ymgymryd ag hyfforddiant pwrpasol rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol i sicrhau presenoldeb cyson a sut i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae'r pennaeth wedi meithrin perthynas weithiol gadarnhaol â staff, disgyblion a rhieni er budd addysg a lles y disgyblion. Mae ganddi weledigaeth glir ble mae pob disgybl yn derbyn y profiadau dysgu gorau posibl ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn, a balchder yn eu hunain a'r ysgol. Mae hi wedi

llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn parhau i deimlo'n ddiogel, yn hapus i fod yn yr ysgol ac yn dangos agweddau cadarnhaol at y dysgu.

Mae'r staff yn gefnogol o'r pennaeth ac yn deall a chyflawni eu rolau yn effeithiol. Maent yn ymgymryd â'u gwaith i arwain ar eu meysydd gydag arddeliad ac ymroddiad. Mae trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae'r targedau'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac mae cyswllt clir â gweithgareddau dysgu proffesiynol. Derbynia staff gyfleoedd pwrpasol i gydweithio â'i gilydd a gyda phartneriaid allanol. Er enghraifft, mae athrawon yn cydweithio'n fuddiol â staff ysgolion lleol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Mae athrawon yn rhannu arfer dda yn effeithiol yn fewnol trwy gyfarfodydd a thrwy osod adnoddau ar y rhwydwaith mewnol defnyddiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r staff wedi creu diwylliant cryf o ddiogelu ac arddel hunan-barch yn y disgyblion. Maent hefyd yn cynllunio'n ofalus ar y cyd â disgyblion a rhieni i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru fel ei fod yn berthnasol i'r ysgol, y gymuned a'r byd ehangach. Er mwyn lleihau effaith tlodi, defnyddir y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion penodol gyda'u gwaith, yn ogystal â hwyluso mynediad at deithiau ysgol a gwersi offerynnol.

Mae trefniadau addas i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Cesglir gwybodaeth uniongyrchol trwy weithgareddau fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a holi disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yn gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ac mae cyswllt pendant rhyngddynt a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r cynllun gwella yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac yn ddiweddar, mae'r pennaeth a'r staff wedi adolygu'r cynllun a gwneud addasiadau, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth gadarn o beth sydd angen ei wneud i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn wybodus iawn am y rhan fwyaf o agweddau o waith yr ysgol. Maent yn craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a chyfarfod â disgyblion i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol, sy'n eu galluogi i gefnogi a herio arweinwyr yn briodol. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn cadw at ei chyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel ac am hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gyllideb ac adnoddau yn ofalus. Mae'r gwariant yn cysylltu'n briodol â'r cynllun gwella ac yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r adnoddau priodol yn yr ysgol.

Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a rhieni. Defnyddir dulliau amrywiol o rannu gwybodaeth am waith yr ysgol a chynnydd disgyblion, er enghraifft trwy lythyr wythnosol a'r wefan. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi gwaith yr ysgol yn dda trwy godi arian sydd wedi cyfrannu at gostau teithiau addysgol ac adnoddau digidol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/08/2023